Y DINESYDD

Gorffennaf / Awst 2015 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 399 £1



Llun: Andrew Morris

Pedwar Rheswm dros Ddathlu

Merched y Wawr Bro Radur Dathlu 25 Mlynedd

Noson ddathlu oedd hi ar 3 Mehefin - dathlu pen-blwydd y gangen yn 25 oed. Daethom ynghyd yn brydlon a chael bod Irfon Bennett a'i offer camera yn aros amdanom. Tynnodd luniau o holl aelodau'r gangen, o'r swyddogion ers y dechrau ac o'r aelodau oedd yn perthyn rhwng 1989 a'r flwyddyn 1999. Yna gwahoddwyd Mary Wiliam i dorri'r gacen.

Croesawodd ein llywydd presennol, Carys Pugh Williams, bawb i'r dathliad a datgan ei llawenydd fod Nia Jones, cyn-lywydd y gangen, wedi gwella ac yn bresennol. Braint oedd cael cwmni ein Cyn-Lywydd Cenedlaethol, Gill Griffiths, a'n Llywydd Cenedlaethol presennol, Meryl Davies. Wedi ein llongyfarch ar ein llwyddiant, anogodd hi ni i fanteisio ar ein cyfle i groesawu'r merched o bob rhan o Gymru sy'n dod i'n plith yma yng Nghaerdydd a dymunodd hi'n dda i'r gangen i'r dyfodol.

Eirlys Davies gymerodd yr awenau i ddiolch i sylfaenwyr y gangen ac i'r swyddogion a fu'n weithgar dros y blynyddoedd, yn sicrhau'r twf a'r brwdfrydedd.

(parhad ar dud. 4)

Llun: Irfon Bennett

Cyfreithwyr.com yn mynd o nerth i nerth

Rydym yn falch o allu adrodd bod y wefan newydd www.cyfreithwyr.com, sy'n galluogi pobl i chwilio am gyfreithwyr o safon a all gynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'r rhwydwaith y tu ôl i'r wefan bellach yn cynnwys dros 85 o gyfreithwyr ledled Cymru, ar draws 20 o gwmnïau cyfreithiol ac ar draws pob maes arbenigedd, o ewyllysiau ac eiddo, i gyflogaeth, teulu a materion busnes. Yn ogystal, ers ei lansio ar 1 Mawrth 2015, mae'r wefan wedi derbyn dros 21,000 o ymwelwyr.

Yng Nghaerdydd yn enwedig, gyda help hysbysebu yn *Y Dinesydd*, mae'r wefan wedi llwyddo i helpu nifer sylweddol o bobl i ddod o hyd i gyfreithwyr cyfrwng Cymraeg. Mae Gerallt Williams o Dreganna yn un o'r nifer helaeth sydd wedi defnyddio'r wefan. Meddai Mr Williams: *"Roedd angen cyfreithiwr arnaf i helpu gyda'r broses o brynu tŷ. O fewn ychydig oriau o lenwi'r ffurflen syml iawn ar wefan cyfreithwyr.com, fe gysylltodd tri chwmni cyfreithiol gwahanol â mi gydag amcanbrisiau cystadleuol dros ben. Ar ôl dewis un o'r cyfreithwyr hynny, braf iawn oedd cael sgwrsio am y broses o brynu tŷ yn y Gymraeg. Roedd y gwasanaeth a dderbyniais gan y cyfreithiwr yn rhesymol ac o safon uchel iawn."*

Mae'r wefan yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod hi'n addas i bawb – beth bynnag yw safon eu Cymraeg. Fel yr esboniodd Owen John, un o sefydlwyr y wefan, *"P'un ai fod rhywun eisiau gwasanaeth cwbl Gymraeg, neu eisiau'r elfennau 'sgwrsio' yn unig yn Gymraeg, mae'r wefan yma i bawb."*

Cyfreithwyr.Com

Yr unig le i chwilio,
yn hollol rhad ac am ddim,
am gyfreithwyr o safon
sy'n cynnig gwasanaeth
yn y Gymraeg,

02920 829118
www.cyfreithwyr.com

Y DINESYDD

Golygydd:
Ioan Kidd

Golygydd Medi:
Bryan James

Cyfraniadau erbyn 27 Awst i:
db.james@ntlworld.com
Aurorwel, 52 Highfields,
Llandaf, Caerdydd, CF5 2QB
029 20566731

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
63 De Burgh St., Glan-yr-afon,
CF11 6LB
07876 068498

Dosbarthu copïau:
Huw Jones
huwgybuw@aol.com
22 Blaen-y-coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
029 20842811 07985 174997

www.dinesydd.cymru

Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

CABAN, Pontcanna
CANT A MIL VINTAGE, 100 Whitchurch Rd
CHAPTER, Treganna
DERI STORES, Rhiwbeina
FOOD FOR THOUGHT, Y Barri
GRIFFIN BOOKS, Penarth
PAPERWEIGHT, 22 Wellfield Road
SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina

Pedwar Rheswm dros Ddathlu

Wrth imi ysgrifennu hyn o lith, mae'r haul yn disgleirio'n braf a does dim un cwmwl yn yr awyr. Mae'n ddigon i godi ysbryd y mwyaf digalon yn ein plith, ond peth ffôl fyddai dibynnu ar dywydd anwadal Cymru am reswm dros wenu yr haf hwn. Fel y gŵyr pawb, gall heulwen heddiw droi'n ddilyw o fewn oriau! Eto, mae 'na ddigon o resymau eraill dros wenu... dathlu hyd yn oed.

Fel y tywydd, gall unrhyw beth ddigwydd rhwng nawr a gemau Ewro 2016 yn Ffrainc ond, am y tro cyntaf ers dros hanner canrif, mae 'na obaith gwirioneddol y gall ein tîm pêl-droed cenedlaethol gyrraedd rowndiau terfynol pencampwriaeth fawr. Byddai hynny'n gwneud gwyrthiau i ddelwedd a hunanhyder y wlad. Roedd y fuddugoliaeth yn erbyn Gwlad Belg yng Nghaerdydd ganol Mehefin yn wefreiddiol - gwaith tîm cyfan - ond tybed ydy hi'n bryd i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ystyried newid ei henw'n Gymdeithas BALE-droed Cymru o hyn ymlaen?!

Erbyn i'r rhifyn yma ymddangos yn y siopau, bydd miloedd ar filoedd wedi mwynhau naw niwrnod o weithgareddau Tafwyl mewn lleoliadau ar hyd a lled y ddinas, gyda'r dathliadau'n cyrraedd eu penllanw yn y castell yn ystod penwythnos cyntaf Gorffennaf. Dyma ŵyl sy'n crisialu popeth gwych am ddiwylliant Cymraeg y brifddinas – hir oes iddi!

Eleni, rydym yn dathlu 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa. Ar 28 Gorffennaf 1865 cyrhaeddodd y *Mimosa*, a thros 150 o Gymry arloesol ar ei bwrdd, fan a enwyd yn Borth Madryn ym Mhatagonia i gychwyn bywyd newydd. Mae'r digwyddiad a'r hyn ddaeth wedyn yn unigryw yn ein hanes ac mae'n hollol briodol ein bod yn dathlu'r canmlwyddiant a hanner. Mae 'na restr ddiddiwedd o weithgareddau, yma yng Nghymru ac ar draws yr lwerydd, ond wrth inni ddathlu mae 'na ddigon i gnoi cil arno hefyd – ar y ddwy ochr.

Yn yr hydref, bydd **Yr Hen Lyfrgell -** Canolfan Gymraeg Caerdydd - yn agor yn yr Aes. Y bwriad yw creu canolfan groesawgar sy'n dathlu, hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg fel iaith fyw ar gyfer holl ddinasyddion y brifddinas a'i hymwelwyr. Mae'r adeilad eiconig yma mewn safle amlwg i bawb gael ei weld - dechrau delfrydol i ganolfan o'r fath. Ein dyletswydd ni yw sicrhau ei bod yn llwyddo. Mae'r trefnwyr yn awyddus iawn i glywed ein barn, felly ewch ati i ddweud eich dweud trwy glicio ar y ddolen hon:

https://www.surveymonkey.com/r/henlyfrgell
Oes, mae sawl achos dathlu yr haf yma.

Golygyddol

Bysys Menter Caerdydd

Mae Menter Caerdydd yn trefnu teithiau bws i Sioe Llanelwedd (Iau, 23 Gorffennaf) ac i'r Eisteddfod Genedlaethol (Llun, 3 Awst a Gwener, 7 Awst). Am fanylion pellach, cysylltwch ag Angharad Thomas ym Menter Caerdydd ar 029 2068 9888 neu e-bost: angharad@mentercaerdydd.org

"....gwefreiddiol odd clywed y dorf yn canu
'Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad'
fwy nag unwaith"

Colofn G.R.

Cafwyd chwip o Eisteddfod yr Urdd yn Llancaiach Fawr dros y Sulgwyn a braf odd gweld llawer o blant a phobl ifanc y ddinas yn disgleirio ar lwyfan yr Ŵyl. Llongyfarchiadau iddyn nhw a'u hathrawon a'u hyfforddwyr am ddwyn clod i'n prifddinas.

Y mis diwethaf, cynhaliwyd cyfarfodydd a seremonïau i gofio am ddod â'r Ail Ryfel Byd i ben yn Ewrop ar yr wythfed o Ebrill 1945. On i'n ddeg oed ar y pryd a chof plentyn sy gen i am y rhyfel. Dw i dal i glywed sŵn grŵn yr awyrennau Almaenig yn hedfan uwchben Rhiwbeina ar eu ffordd i fomio porthladd Caerdydd. Bob tro odd cyrch ar Gaerdydd byddai Mam yn rhoi fy mrawd a minnau i eistedd ar glustogau dan fwrdd deri cadarn a byddwn yn darllen comics yno! Cofiaf godi shrapnel ar y ffordd i'r ysgol a gweld trueiniaid y bomio yn dod ar fysiau i Riwbeina i ysgoldy Beulah am loches. Cofiaf hefyd y parti dathlu diwedd y rhyfel yn ffreutur yr ysgol ac aeth ein tad â ni i ganol y ddinas i ymuno yn y dathlu yno hefo cannoedd o bobl yn dawnsio a chanu yn y strydoedd.

Gan nad oes gen i sianel Sky gorfu i mi wrando ar y gêm bêl-droed rhwng Cymru a Gwlad Belg ar y radio a dyna beth odd profiad! Odd sŵn y dorf yn gweiddi cefnogaeth gydol y gêm yn anhygoel a phan sgoriodd Gareth Bale cododd y sŵn yn uwch fyth, a gwefreiddiol odd clywed y dorf yn canu "Gwlad, gwlad pleidiol wyf i'm gwlad" fwy nag unwaith yn lle "Hymns and Arias" a glywir byth a hefyd mewn gemau rygbi. Odd hi'n noson i'w chofio a rhaid dymuno pob llwyddiant eto i'n tîm pan awn nhw draw i Ynys Cyprus i chwarae eu gêm nesa.

Bob hyn a hyn caf fy ngwylltio wrth ddarllen llythyron yn y Western Mail yn dilorni ein hiaith gan bobl gibddall, mewn gwirionedd, a hyd yn hyn dw i wedi ymatal rhag anfon llythyr i ladd ar eu culni a'u diffyg cydymdeimlad â'n hiaith genedlaethol. Ond yn ddiweddar, darllenais Atodiad Gwyliau yn yr Echo yn sôn am Ynysoedd Faroe sy 200 milltir i'r gogledd o'r Alban a 300 milltir o Wlad yr Iâ hefo poblogaeth o tua 26,000. Yno, maen nhw'n siarad tair iaith - yr iaith gynhenid sef Faroese, Daneg a Saesneg. Does neb yno am weld diwedd ar y Faroese a felly beth ydy'r broblem i rai o drigolion ein gwlad ni hefo dim ond dwy iaith i ymgodymu â nhw!

Mae hen edrych ymlaen bellach at Eisteddfod Meifod ar ddechrau Awst a diau bydd llawer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn heidio yno i fwynhau croeso twymgalon pobl Maldwyn. Bydd eraill ohonoch ar wyliau dros y byd i gyd ac yn dychwelyd i'ch cartrefi ar ddiwedd Awst wedi cael atgyfnerthiad ar ôl ymlacio ac yn barod i wynebu tymor arall o weithgarwch yn eich cymunedau.

Dw i eisoes wedi cael egwyl bleserus ar ôl y Sulgwyn drwy fynd hefo aelodau o Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina i ardal Efrog – ardal ddieithr iawn i Gymro fel minnau - a rhaid i mi gyfaddef fy mod i wedi mwynhau'r ymweliad yn fawr.

Tan fis Medi, felly, hwyl fawr i chi ble bynnag fyddwch chi'n treulio'r haf a diolch am eich sylwadau ffafriol am y golofn hon!

Merched y Wawr Bro Radur - Dathlu 25 mlynedd

(parhad o dudalen 2)

Ein gwestai, Mair Penri Jones, a lywiodd weddill y cyfarfod yn acen hyfryd Maldwyn ac yn nhraddodiad Penllyn. Roedd wedi dewis ei thestun — "Mair Penri a'i phobl" ac ar ôl cyflwyno i ni ychydig o'i hatgofion cynnar am ei phlentyndod ym Mhenybont Fawr ac Ysgol Llanfyllin a chydnabod rhai dylanwadau ar ei gyrfa, aeth ati i'n diddanu trwy bortreadu "ei phobl", pob un yn gymeriad unigryw. Byddwn yn cofio'n hir am Bethan Mair walltog, am y wraig fferm radlon a'i gwregys "cordyn beindar" oedd yn arbenigo mewn sawl maes, am y gantores o fri nad oedd beirniaid yn ei gwerthfawrogi ac am sawl cymeriad lliwgar arall. Roedd llawer ohonom yn chwerthin hyd ddagrau.

Diolchodd Eirlys Eckley ar ein rhan am noson hwyliog a chawsom wledd o luniaeth wedi ei pharatoi gan y swyddogion a thamaid o'r gacen ddathlu. Addas iawn oedd cydnabod trylwyredd arferol ein hysgrifenyddes, Meri Griffiths, a drefnodd y noson.

Eirlys Roberts

WHALU MEDDILIE

"...mae gan blant hawliau, ond does gan hen bobl ddim oll."

Beti George

Wel mae e wedi bod yn fis sy wedi gwibio heibo, rhwng popeth.

Tawelfan - yr uned gofal i bobl â dementia yn Ysbyty Glan Clwyd - un o sawl pennod ddyle godi cywilydd ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Allswn i ddim llai na dychmygu petai David yn un o'r preswylwyr...

Maen nhw'n disgrifio'r cam-drin fel rhyw drosedd sefydliadol - institutional. Pa bynnag eiriau maen nhw'n defnyddio, yr unig beth sy'n fy nharo i yw shwd ar y ddaear y gall unrhyw berson o gig a gwaed ymddwyn mor ffiaidd at hen berson bregus, pa mor anodd bynnag all hwnnw neu honno fod. Petai hyn wedi digwydd i blant, allwch chi ddychmygu'r ymateb? Fe fuse rhywun dan glo erbyn hyn! Mae'n beth mor hurt - mae gan blant hawliau, ond does gan hen bobl ddim oll.

Ym maes awyr Caerdydd yn ddiweddar sylwes ar rybudd i gwsmeriaid - yn Saesneg yn unig wrth gwrs!

"Customer Notice

In accordance to our legal duty Swissport will support any employee who is a victim of violence at work. This includes any incident in which that employee is subjected to verbal abuse, threatened or assaulted.

The law provides for penalties which may, on conviction, include imprisonment."

Eitha reit 'fyd!

Dw i'n newid Customer Notice i "Employee Notice", a'r "employee" alle ddiodde trais i "resident"!

Ond i fynd nôl at ofalu am bobl â dementia. Fel dw i wedi dweud o'r blaen, dyw e ddim yn hawdd. Ac mae'r un sy'n gofalu yn dysgu o'r newydd bob dydd. Ond un peth sy'n gyson - os ydw i yn fy hwyliau, does neb mwy hapus na David. Y bore 'ma roedd e'n canu wrth siafo, ac yn jocan ffwl pelt. Fory, os bydda i'n fyr fy amynedd, fe fydd ynte yn fwy anodd. Felly y gyfrinach yw aros yn cŵl ac amyneddgar. Haws dweud na gneud. Pwy ohonon ni all hawlio nad ydyn ni byth yn flinedig a chroen ein tin ni ar ein talcen?

Mae'r Sefydliad Materion Cymreig wedi gofyn i fi gyflwyno'r ddarlith Eisteddfodol flynyddol ym Meifod. Dementia fydd y pwnc a bydd y gweinidog iechyd, Mark Drakeford, yn cadeirio'r sesiwn. Gan bod bron pawb â chysylltiad â'r afiechyd, fe ddyle fod yn gyfarfod gwerth chweil a chyfle i bobl ddweud eu dweud.

Clwb Gwawr Llygaid y Dydd

Blwyddyn Llygaid y 'Dydd

Fe fydd Clwb Gwawr Llygaid y 'Dydd - yr unig Glwb Gwawr yn y brifddinas - yn cael seibiant ym mis Awst wedi blwyddyn o weithgareddau a thymor da arall. O gychwyn y tymor efo dipyn o hwyl gydag amrywiol gemau ym Medi i wneud crefftau ac addurniadau Nadolig efo Einir PG a Straeon y Syrcas efo Derfel Williams. Fe wnaethom fwynhau hefyd y sesiwn Yoga efo Nia Ceidiog a bwyd bendigedig yn Popty i ddathlu Gŵyl Dewi.

Ac o sôn am fwyd, fe fydd ein tymor nesa'n cychwyn ar 10 Medi yng nghwmni Elin Williams o Bant a la Cart, Pontcanna. Fe gawn ni edrych ymlaen at ddanteithion tymhorol yn ei chwmni. Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno efo ni am £3 y noson neu fargen am £25 y flwyddyn (11 cyfarfod). Mae 'na raglen lawn o weithgareddau wedi'i threfnu ar gyfer 2015-16 o chwarae golff dan do i ddawnsio, ffotomarathon, cymorth cyntaf, a cherdded Nordig. Rydym yn cyfarfod ar nos lau cynta'r mis (ac eithrio Medi) am 7.45 yh yn Institiwt Llandaf.

Croeso mawr i bawb ac yn enwedig i wynebau newydd. Mae mwy o wybodaeth ar ein tudalen Facebook (Clwb Gwawr Caerdydd) neu dilynwch ni ar Twitter (@clwbgwawrcdydd). Gallwch gysylltu hefyd â:

clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf ein blwyddyn 2014-2015 ar y 18fed o Fai, cawsom y fraint o groesawu'r Athro Eleri Pryse o'r Adran Ffiseg, Prifysgol Aberystwyth. Gweithred gyntaf ein Cadeirydd oedd mynegi llongyfarchion yr aelodau i'n gwestai ar yr anrhydedd o ennill Cadair Bersonol yn Hydref 2014. Dyfarnwyd hyn ar sail disgleirdeb ei hymchwil, safon ei gofal dros fyfyrwyr ymchwil a safon uchel ei darlithoedd i is-raddedigion, y cyfan dros oddeutu chwarter canrif o wasanaeth yn y brifysgol.

Ganed Eleri yn Nolgellau. Derbyniodd ei haddysg gynradd mewn ysgolion yn Nolgellau, Bangor ac Aberystwyth, cyn symud i Ysgol Penweddig am ei haddysg uwchradd. Graddiodd mewn Ffiseg yn Aber ac yno y bu ers hynny, gan ymuno â staff yr adran a graddol ddringo drwy haenau'r adran i'w safle bresennol.

Maes ei harbenigedd yw nodweddion yr ïonosffer, sef, yr atmosffer trydanol, a'u dylanwad ar donnau radio y Ddaear. Mae'r ïonosffer yn dechrau ar uchder o tua 60 cilomedr; ar uchder o tua 300 cilomedr mae ar ei ddwysaf.

Ers blynyddoedd cynnar ei gyrfa ymchwil bu Eleri yn canolbwyntio ar dechnegau o geisio nabod strwythur yr ïonosffer. Yn enwedig, bu'n ddylanwadol iawn ar ddatblygu techneg arbrofol newydd, o'r enw tomograffi, i roi prawf ar syniadau damcaniaethol oedd yn deillio o efelychiadau (simulations) cyfrifiadurol o strwythur yr ïonosffer.

Yn y cyfarfod cawsom gipolwg gyfoethog ar y rhyfeddodau sy uwch ein pennau bell i ffwrdd, ond sy'n effeithio'n arw ar hwyluso'r moddion cyfathrebu ar y Ddaear, moddion y byddwn yn eu cymryd yn ganiataol erbyn hyn.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y drydedd nos Lun o Fedi yn ein man cyfarfod arferol, ym Mhrif Adeilad y Brifysgol, i gychwyn am 19.30. Croeso, croeso nôl, beth am fentro am y tro cyntaf?

Newyddion Cwrt Insole, Llandaf

"Ramblings of a Patagonian"

Nos Iau, 4 Mehefin, cafwyd cyngerdd llwyddiannus yn Ffreutur Coleg Mihangel Sant, Llandaf. Llywyddwyd y noson gan Syr Norman Lloyd-Edwards a fo gyflwynodd y Dr Matthew Williams roddodd sgwrs hanesyddol a phensaernïol am yr adeilad cyn i bawb gael swper eistedd i lawr blasus. Yr adloniant oedd "Ramblings of a Patagonian" - tipyn o chwerthin, canu a hel atgofion wrth i Frank Hennessy rannu noson gyda hoff Gaucho Patagonaidd Cymru (a phreswylydd Llandaf), Rene Griffiths. Codwyd swm sylweddol at gronfa Tŵr y Cloc yng Nghwrt Insole.

Cynnydd Mawr yn y Cwrt

Mae'r prif weithiau yng Nghwrt Insole yn parhau. Mae adnewyddiad y Bloc Stablau bron â'i gwblhau gyda llawer o'r to llechi bellach ar yr adeilad, ac mae'r gwaith ar Dŵr y Cloc yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r maes parcio cyfan wedi ei osod allan gyda bitwmen, ac mae'r Swît Hyfforddi wedi ei chlirio'n llwyr a'i hasesu. Mae llawer o waith hefyd wedi ei wneud i'r Siediau Potio a'r Ystafell De newydd. Mae'r gwaith nawr wedi dechrau yn y Tŷ, gyda gwasanaethau newydd yn cael eu gosod. O fewn yr ychydig wythnosau nesa, dylai'r gwaith ddechrau hefyd ar y Neuadd Gymuned. Ewch heibio i weld beth sy'n digwydd.

Rene Griffiths a Frank Hennessy

15 Gorffennaf 2015 "G L O ➔ A U R"

Ar 15 Gorffennaf 1856, yng Nglofa James Insole yn y Rhondda, bu farw 114 o ddynion a bechgyn yn y drychineb gyntaf ar lofa i gymryd mwy na 100 o fywydau. Yr achos oedd awyru annigonol. Nodir y pen-blwydd yma bob blwyddyn drwy gludo darnau o lo dros yr 17 milltir o'r gofeb yn y Cymer i'r Gelli Goffa yng Nghwrt Insole i gofio am y ddyled sy ar Gaerdydd i'r llu enfawr ymlafniodd o dan ddaear gan droi glo'r Rhondda yn aur Caerdydd.

CERDDWCH EICH HUN NEU NODDWCH GERDDWR. GELLWCH GERDDED YR HOLL FFORDD NEU YMUNO YM MHONTYPRIDD NEU'R CASTELL COCH

Ffuflenni noddi a digolledlad: John Isaacs 029 2055 5970 / John Prior-Morris 07966 487711

Dafydd Griffiths

Pennod Gyffrous

Yr Hen Lyfrgell yn Yr Aes yng nghanol y brifddinas fydd cartref newydd y ganolfan Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd diolch i gais llwyddiannus Cyngor Dinas Caerdydd a'i bartneriaid i Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cymru.

Menter Caerdydd sy'n arwain y prosiect aml-bartneriaeth sy'n cynnwys rhai o'n sefydliadau amlycaf. Yn eu plith mae Prifysgol Caerdydd, Clwb Ifor Bach, Amgueddfa Stori Caerdydd, Mudiad Meithrin, Cwmni Mela a Chwmni Bodlon. Y bwriad yw creu canolfan agored, egnïol a chroesawgar fydd yn hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg fel iaith fyw i holl drigolion Caerdydd a'i hymwelwyr.

Bydd Yr Hen Lyfrgell yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau, gan gynnwys caffi, bar a bwyty, siop yn gwerthu cynnyrch Cymreig o safon, siop lyfrau, ystafelloedd addysgu, crèche, ardal arddangos hyblyg, gofod perfformio, ardal cydweithio, amgueddfa a chyfleusterau cynadledda. Mewn amgylchedd cymdeithasol a chyfeillgar, bydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant wrth galon y cyfan.

Bydd Yr Hen Lyfrgell yn agor yn yr hydref eleni.

Merched y Wawr Caerdydd

Yr arbenigwr ar drafnidiaeth a'r peiriannydd o fri, Yr Athro Stuart Cole, fu'n annerch y gangen ym mis Mehefin. Croesawyd e gan Carol Williams a ychwanegodd ei fod hefyd yn *ddyn yr olwynion*, sy'n mynychu sioeau ceir yn ei hen Vauxhall Viva sy'n cyhwfan y Ddraig Goch a baner Dewi Sant.

Gyda brwdfrydedd, ynghyd â lluniau ar sgrin ac ystadegau, trafododd ddyfodol rheilffyrdd Cymru. Cyn hir, bydd yr hen enw GWR (*Great Western Railway*) i'w weld eto yn lle'r *First Great Western*. Clywsom am y cynlluniau i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd sy'n golygu codi'r pontydd yn uwch. Bwriedir hefyd drydaneiddio'r rheilffordd o Gaer i Gaergybi. Roedd yn canmol y trên sy'n teithio bob dwy awr o Gaerdydd i Gaergybi ac yn arbennig y pryd bwyd a'r gwin a gynigir ar y 5:15 yr hwyr o Gaerdydd.

Stuart Cole gyda Pat Pierce a Lona Roberts

Bwriedir codi 20,000 o dai dros yr ugain mlynedd nesaf yn nalgylch Caerdydd a hynny'n ychwanegu at yr angen dybryd i ehangu'r meysydd Parcio a Theithio, a chynllunio llinellau newydd i hwyluso teithio i'r gwaith. Yn ddiddorol, soniodd fod trafod cynlluniau ag adeiladwyr tai bellach yn cynnwys trafod buddsoddi mewn rheilffordd newydd.

Dangosodd luniau trenau newydd sy'n cael eu hadeiladu gan Hitachi yn Japan ac a fydd ryw ddydd yn ein cario o Gaerdydd i Heathrow mewn hanner awr ac i Paddington mewn deugain munud. Gwell peidio â chofnodi ei sylwadau ar gynlluniau Cyngor Caerdydd o gwmpas yr orsaf ganolog a'r orsaf fysiau.

Diolchwyd yn gynnes iddo gan Pat Pierce.

Llongyfarchwyd Caryl Roese ar dderbyn yr ail wobr am ei gwaith gwydr yng Ngŵyl Haf Merched y Wawr ym Machynlleth eleni. Cyflwynwyd blodyn hardd i Caryl, a hefyd un i Carol Williams gyda'n diolch am ei gwaith fel llywydd dros y flwyddyn aeth heibio.

Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd Ymddiheuriadau i Paul Morgan am gael ei enw yn anghywir fis diwethaf yn yr adroddiad am gyfarfod mis Mai y cylch. Fo fydd is-gadeirydd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd am y flwyddyn Hydref 2015 - Mai 2016 ac nid Peter Gillard (ymddiheuriadau iddo yntau hefyd).

NABOD EIN POBOL

Falmai Griffiths yn holi Steffan Lloyd

O ble 'dych chi'n dod yn wreiddiol a ble cawsoch eich addysg?

Dw i'n dod o Radur ger Caerdydd ac yno ro'n i'n byw tan imi ddod i Loughborough. Es i a 'ngefell, Lydia, i Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth ac yna i Ysgol Uwchradd Plasmawr yn y Tyllgoed.

Beth oedd eich hoff bwnc yn yr ysgol?

Addysg Gorfforol yn ddi-os! Ces i lawer o brofiadau da ym Mhlasmawr, yn enwedig yn yr adran Ymarfer Corff. Dw i'n cofio mynd i Vancouver gyda'r tîm rygbi ac i'r Peak District gyda'r Clwb Dringo a mynd ar alltaith i'r Alpau pan yn gwneud tystysgrif Dug Caeredin. Anghofiaf byth mo'r profiadau hynny a dw i'n ddiolchgar iawn i'r athrawon am eu hymroddiad a'u cefnogaeth. Bu Mr. Aled Morgan yn ysbrydoliaeth mawr i mi ac mae'r gefnogaeth ges i ganddo wedi bod yn hanfodol i fy natblygiad.

Beth wnaethoch chi ar ôl gadael Ysgol Plasmawr?

Ro'n i wedi breuddwydio am fynd i Brifysgol Loughborough ers yn bymtheg oed ar ôl darllen prosbectws y coleg, ac fe wireddais y freuddwyd honno ac ennill lle yn y coleg i astudio Ymarfer Corff. Byddaf yn gorffen eleni ar ôl cael amser hapus a buddiol yma.

Dwedwch rywfaint am eich profiadau yn y coleg.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf, ces i fy ethol yn gynrychiolydd chwaraeon yn fy neuadd breswyl - Elvin Richards. Fi oedd yn gyfrifol am safon uchel y chwaraewyr er mwyn cystadlu yn erbyn y pymtheg neuadd arall. Roedd y cystadlu yn frwd ac roedd rhaid i'r chwaraewyr fod ar eu gorau bob amser. Mae Loughborough yn mynnu bod safonau'n uchel. Yn yr ail flwyddyn, ces fy ethol yn gadeirydd pwyllgor oedd yn cynllunio rhaglen chwaraeon rhyng-golegol. Roedd yn gyfrifoldeb mawr gan ein bod yn cynllunio ac yn arwain saith deg o gemau mewn wythnos. Yn ychwanegol at hyn, trefnais dros ugain o gystadleuthau undydd drwy gydol y flwyddyn. Hefyd, ces fy newis i chwarae yn y tîm criced, y tîm criced mwyaf llwyddiannus yn y wlad! Ro'n i'n falch iawn achos 'do'n i ddim wedi dechrau chwarae criced tan 'ro'n i'n bedair ar ddeg oed a hynny yng Nghlwb Criced Radur. Tîm criced Loughborouh oedd y tîm mwyaf llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig ar y pryd. Ond y profiad gorau oedd cael fy ethol yn Is-lywydd Chwaraeon y coleg a chael blwyddyn sabothol yn gweithio i Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn wedi fy helpu i ddatblybu ymhellach ac wedi rhoi cyfrifoldebau mawr i mi. Dw i wedi bod yn atebol i dros 4,000 o fyfyrwyr oedd yn aelodau o'r Undeb Athletau a hynny'n cynnwys pum deg chwech o wahanol athletau - o saethyddiaeth i trampolino!! Hefyd, roedd cyfrifoldeb arna i i sicrhau fod y coleg yn cadw record oedd wedi ei dal am dri deg pum mlynedd, sef tlws enillwyr pencampwriaeth B.U.C.S. (British University & College Sport). Y cyfrifoldeb mwyaf yw rhedeg Undeb sy'n werth £10 miliwn ac yn gwneud elw o dros filiwn o bunnoedd y flwyddyn, a gwneud cynlluniau i ddatblygu'r clybiau a sicrhau cynnydd ym mherfformiadau'r myfyrwyr a'r clybiau yn yr Undeb Athletau.

Beth fydd yn aros yn eich cof ar ôl gadael y coleg?

Wrth edrych 'nôl ar brofiadau'r flwyddyn ddiwethaf teimlaf yn lwcus iawn. Dw i wedi cwrdd â phobol o bob cwr o'r byd, o Boston yn America i Stellenbosh yn Ne Affrig ac i Queensland yn Awstralia ac wedi gwneud ffrindiau oes gyda nhw. Anghofiaf i byth mohonyn nhw ac mae hyn yn deimlad hyfryd.

Beth ydych chi'n mynd i' wneud ar ôl gorffen yn y coleg?

Ar ôl gwneud yr holl gysylltiadau yn y coleg, dw i'n awyddus i deithio ac i flasu diwylliannau'r byd. Hefyd dw i'n awyddus i symud i Lundain i sefydlu gyrfa mewn digwyddiadau chwaraeon. Ym mis Gorffennaf, bydda i'n helpu yn "The Anniversary Games" yn y Stadiwm Olympaidd yn Llundain. Ar ôl hynny, byddaf yn helpu'r paratoadau ar gyfer noson wobrwyo'r Undeb Rygbi yn Battersea. Cyffrous iawn!!

Ydych chi'n meddwl dychwelyd i Gaerdydd rywdro?

Mae Caerdydd yn agos at fy nghalon, yn enwedig o weld yr holl ddatblygiadau, ac wrth gwrs dw i wedi cael fy magu ar gyrion y ddinas fywiog yma. Caerdydd fydd fy nghartref am byth ac efallai ar ôl cael profiadau tu allan i Gymru byddaf yn barod i ddod 'nôl i weithio yma. Pwy a ŵyr?!

Mae'r Parchedig Angharad James, sy'n 43 oed, yn ficer yn New Cross yn Llundain. Mae hi'n rhannu ei chartref gyda'i chi - Schnauzer Bach o'r enw Peggy.

CERDYN POST O LUNDAIN

Lowri Haf Cooke yn holi'r Parchg. Angharad James

Un o ble ydych chi'n wreiddiol yng Nghaerdydd?

Ces i fy magu yn Llandaf, ond erbyn hyn mae fy rhieni yn byw yn Thornhill. Es i'r ysgol yng Nglantaf ac roeddwn i'n caru reidio fy meic wrth ymyl afon Taf.

Sut lanioch chi yn Llundain a beth ydych chi'n ei wneud yno?

Ar ôl deng mlynedd yn Aberystwyth (gradd, wedyn gwaith), es i gyda fy ngrŵp pop/acwstig o'r enw Elan (enwyd ar ôl Cwm Elan) i Lundain i geisio dilyn yr un llwybr â Suzanne Vega... wnaethon ni ddim llwyddo, felly arhosais i yn y byd cyhoeddi am 9 mlynedd, a wedyn dilyn galwedigaeth i fod yn ficer yn yr Eglwys yn Lloegr. Dwi nawr yn gweithio fel ficer yn St Catherine's yn New Cross, De-ddwyrain Llundain.

Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Llundain...

Codi'n hwyr! Mynd am dro gyda fy nghi bach Peggy (ar ôl Peggy Olson o'r gyfres *Mad Men*) i Hilly Fields. Wedyn mewn i'r canol, i gerdded ar hyd y Southbank, yna gorffen gyda te a rhywbeth diddorol i'w fwyta ym marchnad Borough – dwi'n hoffi unrhyw fath o fwyd o Sbaen.

Pa dri lle yn Llundain y byddech chi'n annog i unrhyw un o Gaerdydd ymweld â nhw, i gael blas go dda o'r ddinas honno?

Mae Llundain yn gyfres o bentrefi – llawer gwell dal trên neu diwb mas i un o'r 'pentrefi' i gael blas ar rywle diddorol, lleol. Am drip *posh*, ewch i Hampstead. Am drip mwy bohemaidd, ac i fwynhau'r afon, ewch i Greenwich. Am drip i weld Llundain go iawn, heb elfen o PR – ewch i Deptford.

Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?

Y caffi yn yr Hayes, yn enwedig brechdan tiwna mas o dun, siop recordiau Spillers a Chanolfan Chapter.

Ydych chi'n adnabod neu'n perthyn i ddinesydd o Gaerdydd sy bellach yn byw mewn gwlad dramor, a fyddai'n fodlon danfon cerdyn post am eu hanes aton ni? Ebostiwch: lowri.cooke@live.co.uk

Diolch!

DIGWYDDIADUR Awst / Medi

Sadwrn, 8 Awst

Clwyd Theatr Cymru ac Urdd Gobaith Cymru yn cyflwyno'r ddrama *Mimosa* yn Chapter, Caerdydd, am 7.30pm. Manylion pellach gan Nerys Edwards: 01352 701575. nerys.edwards@clwyd-theatr-cymru.co.uk;

Iau–Llun, 3–7 Medi

Taith Cymdeithas Carnhuanawc 2015. Taith i Frwsel. Manylion pellach gan Alan Jobbins (asjobbins@btinternet.com; 029-2062-3275).

Mawrth, 8 Medi

Merched y Wawr, Caerdydd. Bydd Llwyd Owen yn sôn am ei waith fel nofelydd yn Neuadd Westminster, Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Westminster Crescent am 7.30pm. Manylion pellach: 029-2075-4379.

Llun, 21 Medi

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni'r Parch. Denzil John, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

Sadwrn, 26 Medi

Tabernacl, Yr Ais. Datganiad organ gan Iestyn Evans am 12.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer
Y Digwyddiadur at
Yr Athro Wyn James, 16 Kelston Rd.
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754
E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

BETHEL, RHIWBEINA

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir ag Iola James a Nerys Smith a'u teuluoedd ar golli eu brawd, Dewi Vaughan Owen, a hynny yn annisgwyl a sydyn.

Priodas

Yn ddiweddar, cynhaliwyd priodas Nia Laugharne a Huw Talfryn Walters gyda'r gweinidog, y Parch. Evan Morgan, yn gweinyddu. Mae Nia yn ferch i Mair Jenkins a Phillip Laugharne. Dymunwn briodas hapus i Nia a Huw.

Sain Ffagan

Ar 23 Mehefin, bu rhai o aelodau Bethel yn ymweld â Sain Ffagan. Ar ôl cerdded drwy'r gerddi, ymlaen wedyn i'r Plymouth Arms am ginio.

Dalier sylw

Ni chynhelir oedfaon yn y capel yn ystod mis Awst ond bydd yr oedfaon yn ailddechrau ar fore Sul, 6 Medi am 10.15.

Yn y cyfamser, gwyliau haf hapus i bawb o aelodau Bethel.

Rhai o aelodau Bethel yn mwynhau eu hymweliad â Sain Ffagan

EGLWYS Y TABERNACL

Cofio

Bu Dewi Watkin Powell yn aelod yn y Tabernacl am gyfnod hir iawn, er iddo symud ei aelodaeth i Berea Cricieth tua 15 mlynedd yn ôl. Bydd y byd yn ei gofio fel gŵr y gyfraith blaengar ac yn berson a frwydrodd dros le'r iaith oddi fewn i'r gyfundrefn gyfreithiol. Bydd aelodau'r Tabernacl yn ei gofio fel gŵr gweddi a defosiwn, athro ysgol Sul a diacon blaengar. Gwasanaethodd ei enwad fel llywydd yr Undeb, a bu'n llais dros lu o achosion da. Cydymdeimlwn â Nia ac Elen yn eu hiraeth amdano.

Cofiwn hefyd y cyfaill gwylaidd, Thomas Reginald Morris, a fu'n aelod yma am yn agos i 20 mlynedd. Bu'n ffyddlon hyd y medrai ac ni chwynodd unwaith am ei ddallineb. Mwynhaodd fod yn aelod yn y Tabernacl, heb anghofio ei wreiddiau yn Abercych a'i fywyd yn ardal Harlech.

Oedfa'r ifanc

Ar nos Sul, 14 Mehefin, roedd yr oedfa yng ngofal yr ifanc yn seiliedig ar astudiaethau'r bobl ifanc o lyfr yr Actau. Roedd BBQ hefyd yn dilyn.

Datganiad Organ Christopher Enston, 25 Ebrill

Dyma un o'r rhaglenni mwyaf swmpus ers dechrau'r gyfres: Fantasia yn F leiaf K608, Mozart (1756–91); Preliwd a Ffiwg yn A leiaf BWV 545, JS Bach (1685–1750); Trio: Herr *Iesu Christ, dich zu uns wend,* JS Bach; Sonata 5, Chorale, Andante, Allegro Maestoso, Mendelssohn (1809–47); Fantasia a Ffiwg ar Bach, Liszt (1811–86). Christopher Enston yw un o'r organyddion prin a gafodd '*standing ovation*' am ein syfrdanu.

Eisteddfod yr Urdd, Caerffili

Bu llawer o deuluoedd yr eglwys yn Llancaiach Fawr yn cefnogi plant a phobl ifanc yr ardal. Roedd yn hyfryd gweld Sir Caerdydd yn llwyddo cystal a nifer o bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r Tabernacl yn dod i'r brig.

SALEM, TREGANNA

Bedyddiadau

Bedyddiwyd Steffan, mab Siwan fore Sul 7 Mehefin, a Ffion merch Lowri a Gareth fore Sul 21 Mehefin. Dymuniadau gorau i chi i gyd i'r dyfodol.

Cyngerdd Hogia'r Wilber o Batagonia

Cafwyd cyngerdd arbennig iawn yn Salem nos Sadwrn 6 Mehefin gan gôr y Wilber o Batagonia. Hefyd yn cymryd rhan roedd Côr Meibion Taf a Rhisiart Arwel. Roedd y capel yn orlawn a chafwyd noson i'w chofio.

Clwb criced

Mae'r clwb criced wedi bod yn brysur yn chwarae yn ystod y mis. Ym mis Gorffennaf, nos Lun 13, bydd gêm arbennig ar Gae'r Esgob rhwng 2 dîm gan Salem, Y Philistiaid yn erbyn Y Corinthiaid. Croeso i chi ddod i fwynhau, i gefnogi ac i joio!

Clwb brecwast a'r clwb coffi

Cyfarfu'r clybiau yn ystod y mis yn Ystafell Edwin.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr â Rhian Roberts a'r teulu a gollodd ei thad yn ystod y mis a aeth heibio. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd fel teulu yn eich colled fawr.

EGLWYS Y CRWYS

Cyfarchion

Llongyfarchiadau cynnes i Kristof a Rhodri Gibbon ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Caerffili. Daeth Rhodri yn drydydd yng nghystadleuaeth yr Unawd Chwythbrennau Bl. 7-9, a daeth Kristof yn ail fel aelod o Ensemble 15-25 oed Ysgol Glantaf.

Cydymdeimlo

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Mallt Anderson, Robin ac Arran yn eu profedigaeth o golli priod a thad arbennig iawn, y Dr. Don Anderson. Dymunwn bob bendith iddynt yn yr amser anodd yma.

Y Grŵp Merched

Treuliwyd noson ddifyr yn swpera ym mwyty Mulberry, Llandaf, ddechrau Mehefin. Diolch i Catherine Jobbins a fu ynglŷn â'r trefniadau. Mae'r Grŵp Merched eisoes wedi cynllunio rhaglen ar gyfer y tymor nesaf. Mae'r Dr. Margaret Roberts wedi rhoi'r gorau i'w gwaith fel Trysorydd ar ôl nifer o flynyddoedd. Diolch iddi am ei gwaith trylwyr. Mae'r Dr. Diana Evans wedi cytuno i lenwi'r bwlch. Mae'r Parch. Lona Roberts yn cymryd drosodd yr ysgrifenyddiaeth oddi wrth Catherine Jobbins ac mae Barbara Evans yn parhau fel Cadeirydd. Diolch i bob un ohonynt am eu cydweithrediad.

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd Te Mefus yng nghartref Arthur a Diana Evans yn yr Eglwys Newydd a chafwyd prynhawn hynod ddymunol. Bu'r tywydd yn garedig a mwynhaodd pawb y wledd o fefus a chacennau hyfryd. Diolch i Arthur a Diana am agor eu drysau. Bydd yr elw yn mynd at Gronfa'r Eglwys.

Sul o Fawl

Cynhaliwyd 'Sul o Fawl' o dan arweiniad Mrs. Siân Griffiths a Mr. Gareth Rhys Davies. Cafwyd dwy oedfa nodedig iawn. Roedd oedfa'r bore o dan ofal plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul ar y thema 'Dwylo' gydag anerchiad gan Mrs. Siriol Burford. Cymerwyd rhan yn yr oedfa hwyrol gan yr aelodau gydag anerchiad ar Apêl Ysbyty Shillong gan Mrs. Bethan Richards, Abertawe. Diolch i bawb a gymerodd ran.

EGLWYS DEWI SANT

Gwasanaeth Teuluol

Cynhaliwyd gwasanaeth wedi`i lunio`n arbennig ar gyfer teuluoedd yr eglwys ar Sul y Tadau, yn cynnwys elfennau cyfoes a thraddodiadol. Gwion Rhisiart oedd y darllenydd ac roedd y plant i gyd yn awyddus i ateb cwestiynau`r Ficer yn ystod ei anerchiad.

Pererindod

Ddechrau mis Gorffennaf, bydd Gwynn Matthews yn arwain pererindod i ymweld â rhai o ffynhonnau Dyffryn Clwyd ac hefyd Abaty Glyn y Groes, Llangollen ac Abaty Dinas Basing, Maesglas. Fel paratoad ar gyfer y daith, rhoddodd Gwynn gyflwyniad arbennig ar hanes y cysegr-leoedd hyn ac hefyd ar feddylfryd Cristnogion y Canol Oesoedd a oedd yn pererindota iddynt.

Ordinasiwn

Urddwyd Rhian Linecar yn ddiacon mewn gwasanaeth yn y Gadeirlan yn Llandaf ddiwedd mis Mehefin, a`r Sul canlynol fe`i croesawyd fel ein curad. Bydd Rhian yn rhannu ei hamser rhwng Eglwys Dewi Sant ac Eglwys Sant Ioan.

Cafodd Rhun ap Rhobert, cyn-aelod yn yr eglwys, ei urddo`n offeiriad, ar ôl treulio blwyddyn fel diacon ym mhlwyf Aberafan, lle bydd e`n parhau fel curad. Dymunwn bob bendith ar weinidogaeth y ddau ohonynt.

Gwasanaeth ar y cyd

Braf oedd croesawu`r Parchedig Ganon Sarah Rowland Jones a rhai o aelodau Eglwys Sant Ioan i`n gwasanaeth boreol ym mis Mehefin.

Te Prynhawn

Roedd yn hyfryd gweld neuadd yr eglwys yn llawn ar gyfer y te a drefnwyd fel rhan o`r cynllun "talentau" gan Mairlis Davies, Heulwen Jones, Chris Livsey a Shân Morgan. Diolch i bawb a brynodd docynnau ac a fu`n cynorthwyo mewn gwahanol ffyrdd.

Gŵyl Flodau

Diolch i Ann Mears, Dilys Jones a Catherine Owen-Jones am greu trefniant blodau trawiadol ar ran Eglwys Dewi Sant yng Ngŵyl Flodau Capel Windsor Place.

BETHEL, PENARTH

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theuluoedd galar y diweddar Mr. Elmer Williams (tad Emma) a Mr. Dewi Evans. Bu'r ddau mewn salwch trwm ers peth amser. Erys meddyliau melys yn gymysg â rhai trist o'u colli.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchwn Howard a Betsan ar achlysur geni wyres (yr ail mewn pythefnos) – gwyliwch rifyn Medi o'r Dinesydd!

Diolch

Diolchwn yn gynnes ac edmygus i Pat am drefnu a llywio Gwasanaeth yr Aelodau ar Sul, 21 Mehefin. Cyfunwyd cyfraniadau gan sawl aelod ar themâu heddwch Cristnogol ac Iddewig. At hyn oll cawsom gyfeiriadau pwrpasol at Sul y Tadau a rysáit at wneud macarŵns.

Brecwast

Pleser o'r mwyaf i nifer ohonom oedd derbyn gwahoddiad i frecwast yng nghartref Betsan er mwyn ei chynorthwyo i godi arian i fynd i Kerala (India) at wasanaeth dyngarol. Bydd hi a Rhiannon yn dechrau'r daith ar 8 Gorffennaf. Rhwydd hynt a nawdd y Nef arnynt. Llongyfarchwn y ddwy ar gael eu hethol yn Brif Ferch (Betsan) a Dirprwy Brif Ferch (Rhiannon) yn Ysgol Uwchradd Bro Morgannwg.

EGLWYS MINNY STREET

Bedydd

Hyfrydwch fu tystio i fedydd Mari Greta ac Alys Rhiannon Lyne-Pirkis, merched Rebecca a Matthew (Fleet) yn yr Oedfa Foreol ar Fai 3.

Cydymdeimlo

Cofiwn yn annwyl am ein haelod hynaf, Catherine Lewis (Llanisien) fu farw ddechrau Mehefin. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am ei bywyd a'i chyfraniad ym Minny Street ar Fehefin 26. Cydymdeimlwn â'r teulu.

PIMS - Prydyddion Ifanc Minny St

Llongyfarchiadau mawr i Jac, Elwyn, Rhys ac Oliver am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth Barddoniaeth Divine 2015. Diolch i Llŷr Gwyn Lewis a ddaeth i roi hyfforddiant i'r PIMSwyr a bod yn "athro barddol" iddyn nhw.

Mae deunydd ysgol farddol yn y festri, mae'n amlwg.

Minny Gerdded

Dan arweiniad un o'n haelodau Janie (Guy) Jones cafwyd taith ddifyr yn ardal Dinas Powys. Fe gerddwyd drwy lesni tawel i gyfeiriad Llanfihangel-y-pwll. Ar draws y cwm roedd cae o farlys glaswyrdd yn dyst i lafur rhyw ffarmwr yn yr ardal. Fe ddygwyd i gof gwpled Geraint Bowen i'r Amaethwr yn ei awdl foliant:

"Y gŵr a wêl gywiro
Adduned yr oged, dro."

Munud i Feddwl

Mae'r gweinidog yn gyfrannwr cyson i'r eitem hon ar y Post Cyntaf. Os cawsoch flas ac awydd mwy, mae cyfraniad tebyg ar ein gwefan yn wythnosol.

EGLWYS EBENESER

Beicio

Faint ohonoch chi sy'n hoffi beicio? Wel, y Sul hwnnw pan oedd Caerdydd dan ei sang o feiciau a chystadleuwyr y Felathon bu un o'n haelodau, Tim Evans, yn seiclo'r gylchdaith 50km - draw am Gasnewydd, drosodd i Gaerffili, cyn troi'n ôl am Gaerdydd. A gwnaeth hynny cyn dod i wasaneth y bore am 10 o'r gloch yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Yr aelod mwyaf ffit o'n plith, mae'n siŵr! Llongyfarchiadau iddo ar ei orchest!

Llongyfarchiadau

Anodd fydd ffarwelio ddiwedd yr haf â Gwion Dafydd a Sara Johnson ond dyna fydd raid gyda theimladau cymysg o dristwch a llawenydd. Tristwch am ein bod yn colli dau o'n ffrindiau sydd wedi bod mor ffyddlon a gweithgar yn ein plith. Llawenydd wedyn am eu bod yn mynd i swyddi yn y gogledd, yn ardal Llansannan a'r cyffiniau, fel cynorthwywyr gweinidogaethol dros tua dwsin o eglwysi, a hynny mewn ardal wledig a braf. Dymunwn bob llwyddiant iddyn nhw yn y fenter heriol ac anturus.

Cymdeithas y Beibl

Cynhaliwyd bore coffi Cymdeithas y Beibl yng nghapel Parkend ar fore Sadwrn, 13 Mehefin. Roedd stondinau amrywiol gan yr eglwysi Cymraeg. Llwyddwyd i godi dros £350 er budd yr elusen bwysig hon, "Beibl i bawb o bobl y byd." Diolch i Gill Lewis a Vikki Tudur am eu gwaith trefnu ac am yr holl nwyddau a gyfrannwyd.

YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Nepal

Er bod y sôn am y daeargryn yn Nepal bellach wedi diflannu o'r bwletinau newyddion, gwyddom y bydd y gwaith o ddelio â'r canlyniadau erchyll yn parhau am flynyddoedd i ddod. Fore Sadwrn, 27 Mehefin, cynhaliwyd Bore Coffi yn yr eglwys i godi arian ar gyfer y gwaith o geisio cynorthwyo trigolion y wlad anghenus hon ar ôl y drychineb. Anfonir yr arian at gronfa Tearfund. Diolch yn fawr i Bethan Haf, Catrin Fflur, Gwenno a Lois am drefnu'r bore.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Owain James ac Aled Lewis ar eu llwyddiant yn eu harholiadau gradd. Bydd Owain nawr yn mynd ymlaen i Rydychen i astudio am radd Meistr, ac Aled yn cael blwyddyn fel cynorthwyydd dosbarth rhan amser gan neilltuo gweddill yr amser i helpu gyda gwaith yr eglwys ynghyd â chael hyfforddiant diwinyddol. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt.

Priodas

Dymunwn briodas dda i Rhydian Marc a Charlotte ar Orffennaf 12.

Oedfaon y Sul

Mae Emyr a Trystan wedi bod yn pregethu yn ddiweddar ar lyfr y Barnwyr a'r Epistol at y Philipiaid. Ar hyn o bryd maent yn mynd trwy Efengyl Luc a llyfr Ruth. Mae modd gwrando ar y pregethau ar ein gwefan www.cwmpawd.org

Merched y Wawr Bro Radur - 1998

Wedi gwneud apêl am luniau o gyfnod cynnar Cangen Merched y Wawr Bro Radur, daeth y llun yma o ddathliad pen-blwydd Margaret Florence Roberts yn 90 oed i law. Diolch i'w merch, Gwenan Richards, am ei fenthyg. Roedd ei mam wedi bod yn aelod ffyddlon yng Nghangen Cricieth cyn symud i Radur. Mary Wiliam oedd llywydd y gangen yn 1998.

O'R YSGOLION

Ysgol Bro Edern

Ar ddydd Gwener 12 Mehefin, cynhaliwyd mabolgampau Y.G.G. Bro Edern yn NIAC a chymerodd yr holl ysgol ran yn yr achlysur hwn. Roedd llysoedd yr ysgol sef Hafren, Rhymni a Taf yn cystadlu i gipio tarian y Mabolgampau. Roedd llawer o gystadlaethau athletaidd yn cynnwys y naid hir, uchel a thriphlyg, rasys 100 metr, 200 metr, 300 metr, 800 metr, 1500 metr, y clwydi, cyfnewid 4x100m a 4x200m. Deuddydd cyn hyn, cawsom ni gampau taflu sef y waywffon, y ddisgen a'r pwys ar safle'r ysgol a'r pwyntiau yn cyfri at y sgôr terfynol. Roedd llawer o ddisgyblion llwyddiannus yn sefyll yn falch ar y podiwm i dderbyn eu medalau aur, arian ac efydd gan Mr. Pritchard. Torrwyd ambell record flwyddyn ac ysgol gan rai o sêr chwaraeon yr ysgol! Roedd yr athrawon i gyd yn brysur yn cefnogi, dyfarnu, mesur ac amseru wrth bob camp ar y trac a'r maes. Roedd llais brwdfrydig Mr. Williams yn taranu wrth annog a chyhoeddi'r enillwyr! Daeth nifer fawr o rieni brwd i gefnogi ac ymuno yn yr hwyl! Yn y diwedd Hafren oedd yn fuddugol, Taf yn ail a Rhymni'n drydydd ond mae'n siŵr fod pawb wedi joio mas draw! Diolch yn fawr i Mr. Hancock a Miss Bishop am drefnu diwrnod penigamp!

Lleucu Evans

Ar ddydd Iau 18 Mehefin, fe gynhaliwyd diwrnod Parch yn Y.G.G Bro Edern. Yn ystod y diwrnod arbennig hwn, fe ddysgon ni am sut i barchu pobl o bob cefndir, hil, crefydd a golwg. Yn ogystal, fe ddaeth dwy ddynes i siarad gyda'r ysgol gyfan yn y gwasanaeth ysgol. Soniodd un ddynes am ei phrofiad yn chwarae hoci i Gymru a sut gwireddodd hi ei breuddwyd, yn ogystal â thrafod ei bod yn hoyw. Siaradodd y ddynes arall am ei bywyd yn fyddar a sut mae hi wedi datblygu ffordd o fyw. Roedd y ddwy ddynes yma yn ysbrydoliaeth i'r disgyblion ac wedi effeithio'n fawr ar ein diwrnod Parch. O ganlyniad, roedd ein diwrnod Parch yn un andros o lwyddiannus ac roedd pawb yn sicr wedi mwynhau.

Aimee Callow

Ysgol Glantaf

Charlie Lovell-Jones: Enillydd y Fedal Gyfansoddi

Llongyfarchiadau enfawr i Charlie, sydd ym mlwyddyn 11, ar ennill y fedal - camp a hanner o ystyried bod y gystadleuaeth ar agor i fyfyrwyr hyd at 25 oed! Nid yw doniau cerddorol Charlie yn gorffen gyda chyfansoddi; bu hefyd yn fuddugol yng nghystadlaethau'r unawd llinynnol a'r unawd piano blwyddyn 10 i 19 oed. Llynedd enillodd Ysgoloriaeth yr Eisteddofd yn Eisteddfod Meirionnydd. Gyda'i gyfansoddiad buddugol, "Ffantasia yn F", mae wedi cadarnhau ymhellach bod dyfodol disglair iawn o'i flaen. Rydym yn falch iawn ohonot!

Rebecca Hayes: Enillydd Ysgoloriaeth yr Eisteddfod

Enwebwyd Rebecca yn enillydd Ysgoloriaeth yr Eisteddfod wedi sawl perfformiad gwefreiddiol ar lwyfan yr Eisteddfod yng Nghaerffili. Bu Rebecca

Ensemble Offerynnol Hŷn

hefyd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y fonolog ac fel aelod o'r Cyflwyniad Dramatig a'r Ymgom. Mae Rebecca, sydd ym mlwyddyn 13, wedi ei derbyn i astudio yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru ym mis Medi. Dymunwn bob lwc iddi i'r dyfodol ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn troedio llwyfannau Caerdydd a Chymru yn fuan!

Am restr lawn o'r buddugwyr gweler Dinesydd mis Mehefin.

Ysgol y Wern

Criw Menter yr Ysgol

Llongyfarchiadau i gwmni Cymru Iach (Alice Irving, Elina Dineen, Gethin Price ac Osian Davies) sef criw menter yr ysgol a fu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth 'i-Cans £10 challenge' yn ddiweddar. Nod y gystadleuaeth oedd sefydlu busnes gan ddechrau gyda £10 yn unig. Llwyddodd y cwmni i wneud elw o £1171.21 mewn 3 wythnos. Roedd yr elw yma'n uwch nag unrhyw un o'r ddeunaw ysgol oedd yn y gystadleuaeth. Cawsant hefyd y wobr gyntaf am gyflwyno eu busnes o flaen cynulleidfa. Tipyn o gamp!

Athletau

Llongyfarchiadau i dîm athletau'r ysgol a goronwyd yn bencampwyr y ddinas mewn cystadleuaeth ar gyfer ysgolion Caerdydd.

Bosnia neu Byst

Bydd triawd o gefnogwyr pêl-droed o Gaerdydd yn croesi Ewrop unwaith eto eleni er mwyn cynnig anrhegion a chymorth ariannol i elusennau plant. Mae'r tri yn aelodau o'r elusen *Gôl!* a byddan nhw'n teithio i Sarajevo i weld Cymru'n chwarae'n erbyn Bosnia yng ngemau rhagbrofol Pencampwriaethau Ewrop yn yr hydref.

Kevin Davies, Dave Collins a Tim Hartley yw'r tri gŵr annoeth fydd yn teithio dros 2,500 cilomedr a thrwy naw o wledydd gan godi arian at yr achosion da ar hyd y daith. Maen nhw'n ddiolchgar am gefnogaeth cwmni ariannol Macsen, sydd wedi'i leoli yn y brifddinas, am noddi'r car.

Cefnogwyr Cymru ar eu taith ddiwethaf i Facedonia

Yn Sarajevo byddan nhw'n ymweld â "Ljubica Ivezic," canolfan i blant a phobl ifanc digartref. Dyma'r cartref mwyaf o'i fath yn Bosnia ac mae'n cynnig cymorth i blant amddifad neu'r sawl a gollodd eu rhieni yn ystod y rhyfel.

Dywedodd Gweirydd ap Gwyndaf, Cyfarwyddwr Macsen: "Mae cefnogwyr pêl-droed Cymru'n gwneud gwaith aruthrol yn codi arian er mwyn helpu plant a phobl ifanc. Mae'r elusen hefyd yn codi proffil Cymru ar draws Ewrop. Rydym yn falch iawn i noddi *Gôl!* ar y daith i Bosnia. Pob lwc iddyn nhw ac i'r tîm cenedlaethol."

Bydd y cefnogwyr yn gadael Caerdydd ar Hydref 2 ac yn cyrraedd Sarajevo mewn da bryd i weld y gêm ar y 10fed. Byddan nhw'n gyrru i Felgrâd ar ôl y gêm fawr gan gyflwyno'r car i elusen sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn Kosovo.

Dywedodd ymddiriedolwr *Gôl!* Tim Hartley, "Ry'n ni wastod wedi derbyn croeso arbennig ym mhob gwlad ry'n ni wedi ymweld â hi, o Armenia i Latfia i Wlad yr Iâ. Dyma'n ffordd fach ni o ddweud diolch a rhoi rhywbeth yn ôl."

Sefydlwyd *Gôl!* yn 2002 ac erbyn hyn bu'n weithgar mewn rhagor na 30 o wledydd. Mae'r elusen yn cynnig help i elusennau plant bob tro y mae Cymru'n chwarae gêm ryngwladol. Mae hefyd yn ceisio gwella delwedd cefnogwyr pêl-droed oddi cartref.

Os am gefnogi Gôl! ewch i:
https://www.justgiving.com/T-Hartley

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Tim Hartley – 07716 812043

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Croesawyd y Dr Walter Ariel Brooks, brodor o'r Wladfa, i gyfarfod mis Mehefin. Fe ddysgodd Gymraeg yno, dan oruchwyliaeth Gwilym Roberts, Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas, a bellach mae'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Braf hefyd oedd cael cwmni Irma Sara da Graça o'r Gaiman.

A ninnau eleni yn dathlu 150 mlynedd oddi ar laniad y *Mimosa* ym Mhatagonia, cafwyd ganddo arolwg o arbenigrwydd y Wladfa a'r waddol ardderchog a drosglwyddwyd i'r genhedlaeth bresennol. Mae hynny'n rheswm dros ddathlu eleni, meddai, a soniodd fod gorchest y Cymry yn golygu llawer i'r Ariannin, sy'n ymfalchïo bod Patagonia yn rhan o'r wladwriaeth honno lle mae pawb yn gwybod am *Gales*. Roedd yn cydnabod bod rhai yn ddiweddar yn feirniadol o'r hyn a alwyd yn 'goloneiddio' gan y Cymry ond anghytunai â hynny.

Walter Ariel Brooks ac Irma Sara da Graça

Bu'n sôn am ei waith yn cydlynu'r dathliadau amrywiol ar ran y Cyngor Prydeinig. Roedd rhai yn y gynulleidfa wedi mynychu'r dathliadau yn Lerpwl ym mis Mai a bydd Carwyn Jones, y Prif Weinidog, ac eraill, yn teithio i Ŵyl y Glaniad ym mis Gorffennaf. Trwy ddrama, archifau, rhaglenni teledu, cerddoriaeth, taith gerdded ar draws y paith i godi arian at Ysbyty Felindre, gŵyl yn hybu *Cwrw Gaucho* a hyd yn oed gemwaith arbennig, bydd dathlu cofiadwy. Roedd am ddweud ei fod yn ffyddiog ynghylch y dyfodol ac yn awyddus i ni feddiannu'r hanes fel ein hanes ni.

Yn y gynulleidfa roedd Ioan Kidd, awdur *Un o Ble Wyt Ti*?, nofel am ddyn ifanc o Batagonia sy'n ymweld â Chymru i chwilio am ei achau teuluol.

Bydd y Gymdeithas yn mynd ar daith fws i Henllan, Llandysul, ar ddydd Sadwrn, 22 Awst. Mae croeso i eraill ymuno â'r daith i weld yr eglwys hynod yno.

ADDYSG GYMRAEG – Y SIR YN SYMUD AC YN OEDI

Yn ddiweddar, mae cynrychiolwyr RhAG wedi cael y cyfle i drafod addysg Gymraeg gydag olynydd y Cyng. Julia Magill fel aelod Cabinet Caerdydd dros addysg, sef y Cyng. Sarah Merry. Dewisodd hi ofyn i Janine Nightingale, y swyddog sydd nawr â chyfrifoldeb dros ddatblygu addysg Gymraeg, i siarad drosti a bu'n dawedog ar hyd y cyfarfod.

Yn anffodus, nid oedd y rhifau mynediad diweddaraf ar gael er i'r sir ddechrau'r ail ran o leoli plant mewn ysgolion wedi sawl apêl.

Anfonwyd llythyron at rieni pob un o'r 795 plentyn a geisiodd le i'w hysbysu bod 30 lle ychwanegol ar gael yn ysgol Ninian Park (Tanyreos gynt) ond mae rhieni wedi bod yn gyndyn o dderbyn lle yno. Erbyn hyn, mae rhifau Pwll Coch wedi cynyddu i'r chwedegau yn lle'r 55 gwreiddiol.

Nid yw'r papurau ymgynghorol perthynol i'r ysgol newydd yn Grangetown/Trebiwt wedi mynd maes, yn groes i'r addewid a roddwyd fis Ionawr, am nad yw'n iawn i gael y fath ymgynghori ar draws gwyliau ysgol. Rwyf wedi colli cyfrif o'r addewidion a dorrwyd yn y broses yn arwain at sefydlu'r ysgol hon. Mewn gwirionedd mae rhai cynghorwyr am gael proses ymgynghori ar 2 ysgol yr un pryd – yr un Gymraeg sy wedi'i haddo ers 2011 a'r un Saesneg na ddaeth i'r amlwg tan 2014. A ble mae'r sir yn meddwl gosod yr ysgol hon? Naill ai ar y Marl cysegredig neu fel estyniad i Ninian Park, hefyd yn rhannol ar barc.

Mae'r sir wedi dechrau ymgynghori ar symud Glanmorfa i ysgol 2 ffrwd.

Cynllun A yw adeiladu ysgol newydd sbon ar ddarn o dir yn agos i'r Maltings gan drosglwyddo yn ôl i Moorland yr adeilad presennol er mwyn ymestyn Moorland.

Cynllun B yw adeiladu ysgol newydd i Baden Powell, Tremorfa, ar safle Ysgol Uwchradd Willows (fydd efallai yn mynd yn ysgol 4-16) gyda Glanmorfa yn etifeddu hen adeilad Baden Powell a Moorland eto yn etifeddu adeilad Glanmorfa.

Yn amlwg, ni fydd mwy o le i blant Cymraeg yn yr ardal tan 2017 a gofynnwyd felly am adeilad dros dro ar safle Glanmorfa yn y cyfamser.

Trafodwyd sawl ysgol arall lle mae diffyg lle – Nant Caerau, Coed-y-gof , Y Wern a Phenypil - ac fe gafwyd addewid bod Janine Nightingale yn ymwybodol o'r problemau ac yn fodlon ystyried beth oedd yn bosibl.

Yn y sector uwchradd, dywedwyd nad oedd cymaint o golledion o'r sector ag a ofnwyd. Yn anffodus, roedd nifer o rieni, yn arbennig yn nhalgylch Plasmawr, wedi methu gwneud cais o gwbl gan feddwl y byddai'r plentyn yn symud ymlaen i Blasmawr heb wneud cais. Wrth gwrs, erbyn hyn, mae Plasmawr yn llawn a lle ar gael ond yng Nglantaf neu Bro Edern. Cytunodd Janine Nightingale bod angen adolygu dalgylchoedd yr ysgolion uwchradd a hefyd lunio cynllun ar gyfer y bedwaredd ysgol uwchradd.

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Cyn seibiant dros yr haf, mae rhaglen ddiddorol yr Aelwyd yn dirwyn i ben, tan fis Medi.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd cwis blynyddol diddorol yng ngofal dau aelod gweithgar, sef Idwal a Mair Hughes, gan oglais cof pawb ar amryw bynciau, a chael cystadleuaeth frwd rhwng y timau.

Yna, daeth tri myfyriwr o Academi Gerdd Caerdydd i gynnal cyngerdd lwyddiannus gan unawdwyr dawnus, sef Georgina Stalbow o Aberdaugleddau (Soprano), Christine Cook o Seland Newydd (mezzo-soprano) a Llŷr Simon (piano). Mwynhaodd y gwrandawyr gerddoriaeth amrywiol - o ganeuon gwerin i gyfansoddiadau clasurol - Ivor Novello, George Gershwin, Offenbach ac eraill. Edmygir dawn ein pobl ifanc, a diolch i Euros Rhys Evans am drefnu'r achlysur arbennig hwn.

Ddiwedd Mai, yn dilyn darlith gan Carys Whelan, yr arbenigwraig garddio enwog a nodedig, ar y testun "Gerddi Dyffryn", treuliodd yr aelodau brynhawn braf yn crwydro'r plas a'r gerddi ar eu gorau yn ei chwmni. Roedd ei chyngor a'i sylwadau yn werthfawr. Mwynhawyd te blasus yn Neuadd Cory cyn dychwelyd adref. Bu'n achlysur cofiadwy iawn i bawb.

Ganol mis Mehefin paratowyd Te Mefus blasus iawn gan Mair Hughes a chwiorydd yr Aelwyd. Cyflwynwyd anerchiad diddorol ar y testun "Dau Fryn" gan Peter Griffiths, Pentyrch, gyda'i hiwmor arbennig a'i wybodaeth eang am ei filltir sgwâr yn bleser i bawb.

Cyfarfod olaf y flwyddyn oedd ymweliad â Chastell Aberteifi ar 30 Mehefin.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar 9 Medi yn Festri Minny Street am 2.00 o'r gloch - croeso i aelodau newydd!

Rhif: 154

	A			
D	I	N	E	S
	R			

Ar Draws

1. Y dawnus yn ail-gynllunio tegan Lot (8)
6. Gwlad mewn cyfandir anial (4)
8. Caniatáu hanner gair i Aled druan (6)
9. Gorchymyn cael brechau annifyr (6)
10. Ai trin llanast wnewch yma? (10)
12. Crynhoi cant o aelodau seneddol i'r golau ar yn ail (6)
14. 'Oblegid mi gaf yno
Yng nghri'r ystormus wynt
----- o'r hen wrthryfel
A wybu f'enaid gynt' (AEJ) (6)
15. Beth sydd mewn wy? (5, 1, 4,)
19. Daear yr Arglwydd tyner (6)
20. Niwed Diana fach wrth dorri'r ford (6)
21. Cynnyrch cnawd digalon (4)
22 Un sy'n llusgo o gwmpas yr ardd (8)

I Lawr

2. Cywasgu amryfal ffrwyth (4)
3. Nid y rhain sy'n dechrau ennill rasys ar iâ llithrig (5)
4. Offerynnau nefolaidd (7)
5. Glaswellt i gawr gwyllt (5)
6. Mae achos i lu droi at rywbeth llesol (7)
7. Wedi gorffen hanner cynnig rhagorol (8)
11. Pynciau o sylwedd i oen digalon (8)
13. Cadw llygad ar ddathliad i Edward bach (7)
14. Daw Alan o gwmpas yn anghyson (7)
16. '----- gweina dwyfol Un
Heb ei ofyn'(ER) (5)
17. 'A ninnau'n ddihangol o'u cyrraedd
Yn ----- mewn cariad a hedd' (DC) (5)
18. Mewn gambo real cyn nawn (4)



Enillydd Croesair Rhif 152
Dyfed Evans, Pwllheli

Atebion Croesair Rhif 152

Ar Draws:
1. Dealladwy 6. Swci 8. Ysbyty 9. Adlamu 10. Awr, nos a dydd 12. Croten 13. Darpar 14. Anhrugarog 19. Gorsaf 20. Sarrug 21. Ethol Yw mudion

I Lawr:
2. Elsi 3. Llwydda 4. Dwyfron 5. Ymado 6. Sol-ffa 7. Cymwynas 11. Trannoeth 13. Direswm 15. Rasal 16. Gofwy 17. Gwrid 18. Curo

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Medi, 2015.
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

Cymrodorion Caerdydd

Cynhaliwyd pwyllgor Cymrodorion Caerdydd 17 Mehefin i drefnu rhaglen tymor 2015 – 16 ac i ddewis swyddogion.

Derbyniwyd ymddeoliad Falmai Griffiths a Gwyn Briwnant Jones o'r pwyllgor wedi blynyddoedd o wasanaeth, a mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad yr aelodau. Ymddihatrodd Illtyd Lloyd o swydd y Trysorydd, ond erys yn aelod o'r pwyllgor. Cyfetholwyd yr aelodau newydd a ganlyn ar y pwyllgor: Yvonne Heynes, Alwyn Evans a Dafydd Griffiths. Y trysorydd newydd fydd Mary Thomas. Llywydd y tymor nesaf fydd Brynmor Jones, gyda'r Parchedig Dyfrig Lloyd yn Is-lywydd.

Aelodau eraill y pwyllgor yw: yr Athro John Gwynfor Jones (Llywydd Anrhydeddus), Rhiannon Gregory, y Parchedig Lona Roberts, yr Athro Wyn James, y Parchedig Ddr. R. Alun Evans a Gwynn Matthews (Ysgrifennydd).

Dysgwyr y Ddinas

Cyfraniadau gan rai o'n Dysgwyr

Mae Anne Farmer yn ddysgwraig Lefel Uwch yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Diolch i Glyn Wise am y stori hon o'i heiddo.

Lleidr pen-blwydd gan Anne Farmer

"Sori Mam, mae rhaid i fi fynd i ffwrdd am sbel, wythnos efallai. Dw i ddim yn siŵr. Tecstia i ti". Gyda'r geiriau prin hyn, aeth hi mas o'r tŷ yn gynt na'r gwynt.

Ar ôl iddyn nhw ddadlau am fisoedd, penderfynodd ei rhieni ysgaru o'r diwedd. "Diolch byth," meddyliodd. "Nawr bydda i'n gallu canolbwyntio ar fy nyfodol a'm mhroblemau fy hunan, gan eithrio rhai fy rhieni".

Penderfynodd fynd nôl i'r dref fach ble cafodd ei magu yn blentyn. Yfory, bydd ei phen-blwydd yn ugain oed. Felly, meddyliodd y byddai'n darganfod mwy am ei thad-cu ac os oedd e'n dal i fyw yno. Roedden nhw'n rhannu yr un pen-blwydd ac roedd atgofion annwyl gyda hi amdano fe. Byddai'n arfer dweud storïau anhygoel wrthi ac arferodd ei phrofocio am ddwyn ei ben-blwydd! Symudodd hi gyda ei theulu i Lundain deg mlynedd yn ôl, ar ôl marwolaeth ei mam-gu. Ers hynny doedd neb wedi clywed amdano.

Nawr mae hi'n tybio pam? Roedd yn od oherwydd roedd y teulu wedi bod mor glos pan oedd Mam-gu yn fyw. Yn fuan ar ôl ei hangladd, penderfynodd ei thad wneud cais am swydd yn Llundain. Pryd hynny, fel plentyn deg oed, doedd hi ddim yn meddwl bod rhywbeth rhyfedd am y peth! Roedd hi ond yn frwdfrydig i symud i dŷ newydd yn Llundain!

Y trannoeth, wedi cyrraedd y dref, aeth hi mewn i gaffi ger yr orsaf. Roedd y caffi yn llawn. Dangosodd y weinyddes le gwag iddi ar fwrdd yn y cornel. Roedd y lle gyferbyn yn wag ar wahân i hen got eithaf brwnt ar y gadair. Daeth y weinyddes â'i phaned a bisged. Wedyn, daeth hen ddyn i eistedd gyferbyn. Dyn tenau iawn, ei groen yn felyn afiach a disgynnodd ei wallt gwyn seimllyd dros ei ysgwyddau. "Mae e angen triniaeth gwallt a cawod," meddyliodd. Er ei ymddangosiad blêr roedd rhywbeth yn gyfarwydd amdano fe.

"Beth mae e'n wneud? Mae e'n bwyta fy misged ac yn yfed fy nhe," meddyliodd. Pam mae e'n ymddangos yn gyfarwydd? Wedyn, sylweddolodd pwy oedd e. Pan oedd hi'n ifanc arferodd ei thad-cu yfed te bobl eraill. Roedd yn jôc deuluol. Gan ailfeddwl, er gwaetha ei ymddangosiad anhrefnus, doedd e ddim mor wahanol. Yn bendant doedd e ddim yn gofalu am ei hunan. Roedd hi'n ei gofio fel dyn taclus, parchus gyda dillad glân, ffurfiol hen ffasiwn. Fyddai e yn ei chydnabod o gwbl? Siŵr na fyddai! Roedd hi'n edrych yn wahanol iawn ar ôl deg mlynedd i ffwrdd.

Bydd hi'n anodd iawn i ddweud unrhyw beth wrtho yn y caffi llawn pobl. Efallai byddai'n ormod o sioc iddo. Bydd rhaid iddi hi feddwl beth i wneud nesa. Cododd a phwysodd ar y bwrdd i roi sws. Yna, diflannodd o'r caffi.

Gwyliodd y weinyddes y ferch ifanc yn gadael y caffi. Roedd yr hen ddyn yn edrych yn ddryslyd. Ydy e'n ei hadnabod o gwbl, meddyliodd? Ond, roedd y ferch ifanc wedi diflannu.

Aelodau o Yr Awr Hapus, Gwesty Pentref, Coryton yw Jan ac Ian Cox.

Boston, Massachusetts

Aethon ni i Boston ym mis Mai am wythnos i ddathlu ein pen-blwydd priodas. Hedfanon ni o Faes Awyr Caerdydd i Boston drwy Ddulyn gyda Aer Lingus ac roedden ni'n gallu clirio mewnfudo Americanaidd yn Nulyn. Arhoson ni mewn gwesty Hilton yn Boston am chwe noson. Roedd y ddinas a'i phobl yn hyfryd iawn.

Un diwrnod, dalon ni'r bws o Boston i Cambridge, Massachusetts dros y bont i ochr arall Afon Charles. Yn Cambridge mae prifysgol enwog Harvard. Mae siop lyfrau Coop yn rhan o'r brifysgol ac mae yna lawer o lyfrau ar werth yn y siop, gan gynnwys llawer o eiriaduron. Edrychon ni ar y geiriaduron a roedden ni'n falch o weld geiriadur Cymraeg. Cawson ni sgwrs fach gyda un o weithwyr y siop am y geiriadur Cymraeg a dwedodd e "I knew someone would be pleased."

Bwytai Merch y Ddinas

".mae'na sawl seren fawr sy'n absennol, gan gynnwys yr eicon roc lleol Geraint Jarman"

Lowri Haf Cooke

Fy hoff bryd bwyd – sy' ddim yn wreiddiol iawn – yw platiad o stêc a sglodion. Mae 'na lawer o lefydd yn y ddinas i sawru golwyth Cymreig, ond fy ffefryn yw **Greenwood & Brown**. Fe agorodd yn 2012, fel bwyty cyntaf bragdy Brains, ar safle'r hen **Model Inn** ar Stryd y Cei ac mae'r berthynas rhwng y saig a'r safle yn un gadarn.

Pan oedd yn ddyn ifanc iawn, arferai Taid Pant – Gwyn Morgan Cooke o'r Porth yn y Rhondda – weithio yn siop y 50 Shilling Tailors rownd y gornel ar Heol y Santes Fair. Ar ôl diwrnod llawn gwaith, neu wedi gêm ym Mharc yr Arfau, byddai stecen o'r Model Inn yn wobr wych. A'r un fu hanes fy mam a'i ffrindiau ar droad y 1960au – y Model Inn oedd *y lle* i fynd am stêc bryd hynny yng Nghaerdydd.

Yn wir, y Model Inn oedd y dafarn gyntaf i mi feiddio croesi'i throthwy, a minnau'n laslances dan -oed. Yn dibynnu'n llwyr ar fympwy'r bownser (Danny Wilson, tad Ryan Giggs, ar y pryd), cawn fynediad ambell waith; droeon eraill byddai'n rhaid i mi a'm ffrindiau geisio'n lwc rywle arall am rownd o martinis a lemwnêd (ieuenctid ffôl!). Teg yw dweud i'r dafarn weld dyddiau gwell ymhell cyn iddi gau; yr atyniad mwyaf tua'r diwedd oedd y canu karaoke bob nos Wener, a'r carped yn ludiog dan draed.

Pan agorodd Greenwood & Brown toc cyn Nadolig 2012, roedd fel petai Efrog Newydd wedi glanio yng Nghaerdydd, a'r cyfle i fwyta ger y bar yn atyniad mawr. Y mae'r enw'n deyrnged i berchnogion gwreiddiol y dafarn cyn i gwmni Brains ei phrynu, marchnatwyr gwin o'r enw Greenwood and Brown.

Am stecen o fri, galla i hefyd argymell **Pier 64** ym Marina Penarth, ond rydw i heb fod ar gyfyl y bwyty cymharol newydd **Steak of the Art** ar Ffordd Churchill, wedi i mi glywed cymaint o adroddiadau llugoer, a dweud y lleiaf.

Ond mae'r newydd-ddyfodiad i ardal Parc y Rhath – clwb y **Cameo** ar Wellfield Road – yn cynnig safon ar stepen fy nrws; roedd y golwyth llygad asen *medium-rare* ges i yno gyda'r gorau i mi'i flasu erioed, ac fel y seigiau eraill sydd yno, y mae'r pwyslais ar y defnydd o gynnyrch Cymreig.

Ceir hefyd fwydlen lai o blateidiau bychain, ac mae'r calamari yn sicr yn werth chweil. Ond gair i gall, osgowch y crème brûlée blas lemwn, sy'n gorwedd ar sylfaen gor-felys o lysnafedd leimwyrdd.

Serch hynny, mae'r lle yn fywiog iawn, ganol dydd a hwyr y nos, a cheir yno hefyd ardd gwrw ddymunol iawn. Fel yn y gangen wreiddiol ym mhen draw'r ddinas ym Mhontcanna, fe'i addurnwyd â lluniau o sêr Cymreig di-ri. Ond ymysg y portreadau o Joe Calzaghe, Tom Jones a Richard Burton, mae 'na sawl seren fawr sy'n absennol, gan gynnwys yr eicon roc lleol Geraint Jarman. Mae gan yr arlunydd pop Malcom Neon bortread gwych o awdur Cerddi Alfred Street (a leolir dafliad carreg i ffwrdd), ynghyd â'i grwp Y Bara Menyn - gyda Meic Stevens a'r arwres leol Heather Jones – ar wal bwyty Baravin yn Aberystwyth.

Ond, gyda phob parch i Jarman, mae 'na fwlch amlycach fyth ar wal y Cameo na 'Thad y Sîn Roc Gymraeg': neb llai na'r 'Cameo Man' gwreiddiol, a chymydog *arall* i'r clwb, Huw Chiswell - felly deiseb amdani. Tan gaiff y Cymry Cymraeg le yr un mor haeddiannol ar waliau'r Cameo Club, beryg mai cri *William Jones* sydd fwyaf addas: *'Cadw dy blydi (stêc a) chips!'*.

Greenwood & Brown, Stryd y Cei, Caerdydd CF10 1EA; 029 2022 7972
Cameo Club, 55 Heol Wellfield, Penylan, Caerdydd CF24 3PA; 029 2022 0466
***Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke, £9.99 (Gwasg Gomer)**

Ar gyfer yr holl Welliannau i'ch Cartref

FFENESTRI **DRYSAU** **HEULFANNAU**

Drysau Cyfansawdd

Yn ddeniadol, diogel ac ymarferol
Cadwch y cynhesrwydd i mewn, a'r drafft allan. Ar gael mewn amrywiaeth o ddyluniadau a lliwiau.

Ffenestri Lliw

Ddim yn chwilio am wyn?
Beth am greu cynllun lliw perffaith i'ch cartref gyda'n dewis o orffeniadau graen pren a lliw.

To Cynnes Guardian



Trawsnewidiwch eich heulfan
P'un a ydych yn newid eich to presennol neu'n chwilio am heulfan newydd, Y To Cynnes Guardian yw'r ffordd berffaith i roi coron ar y cyfan.

Ffenestri Codi

Steil draddodiadol
Yn cynnig holl fanteision ffenestri modern, ynni-effeithlon. Delfrydol ar gyfer eiddo cyfnod.

Drysau Plygu

Cyfle i greu lle byw agored, hyblyg a chyfoes
Ychwanegwch ofod a golau, a dewch â'r tu allan i mewn. Ar gael mewn alwminiwm mewn unrhyw liw o fewn siart RAL, yn lliw unigol neu'n ddeuol.

Orendai

Orendai fforddiadwy a phwrpasol
Cynllun i weddu i'ch ffordd o fyw, gan greu lle byw i'r teulu cyfan i'w fwynhau.

prynwch nawr talwch wedyn!*

Dewiswch Nolan Heddiw...

- 25 mlynedd mewn busnes
- Gofal ôl-werthu llawn
- Gwarant 10 mlynedd
- Dim blaendal
- Diwydiant achrededig
- Dewis helaeth
- Cyllid Fforddiadwy
- Enw y gallwch ymddiried ynddo

** Cyllid ar gael Isafswm archeb £1,000. Telerau ac amodau yn berthnasol. Cysylltwch â Nolan uPVC Cyf am fanylion pellach.*

I gael amcanbris AM DDIM a Dim Rhwymedigaeth

Ffoniwch ni: **0845 658 8407**

Ewch ar-lein: **www.nolanupvc.co.uk**

Neu dewch i un o'n hystafelloedd arddangos

Caerfyrddin:
Heol Llansteffan
Tre-ioan SA31 3BP

Caerdydd:
112 Heol y Gogledd
Caerdydd CF14 3AB

Mae ein hystafelloedd arddangos ar agor 6 diwrnod yr wythnos